



Nodyn Cyfarwyddyd: Cyflawni Cyfrifoldebau Pwyllgor y Bwrdd yn ystod y cam ymateb i COVID-19

Cyflwyniad

Ar hyn o bryd, mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu pwysau cynyddol na welwyd ei debyg erioed o'r blaen wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y rheini sy'n cael eu heffeithio gan COVID-19. Ochr yn ochr â hyn, mae angen i sefydliadau barhau i ddarparu a chomisiynu gwasanaethau hanfodol sy'n achub bywydau ac yn effeithio ar fywydau. O ganlyniad i'r pwysau ar gyrff y GIG ac ymateb Llywodraeth Cymru i reoli effaith y pandemig, roedd angen addasu'r trefniadau llywodraethu. Yn ei hymateb (dyddiedig 26 Mawrth 2020) i lythyr a dderbyniwyd ar ran y Grŵp Ysgrifenyddion Byrddau, cytunodd Llywodraeth Cymru ar yr Egwyddorion Llywodraethu sy'n ceisio helpu i roi ffocws i ystyriaethau materion llywodraethu dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf (gweler isod).

Yr Egwyddorion Llywodraethu:

- **Budd y cyhoedd a diogelwch cleifion** - Byddwn bob tro'n gweithredu er budd pennaf poblogaeth Cymru, ac yn sicrhau bod pob penderfyniad a wnawn yn cadw at yr egwyddor hon, gan ystyried yr argyfwng iechyd cyhoeddus cenedlaethol a ddaeth yn sgil COVID-19
- **Lles a gwaith staff** - byddwn yn amddiffyn ac yn cefnogi ein staff yn y ffyrdd gorau posibl. Byddwn yn defnyddio ein gwybodaeth a'n hasedau lle y mae eu hangen fwyaf.
- **Llywodraethu da a rheoli risg** - byddwn yn cadw at yr egwyddorion o lywodraethu da a rheoli risg, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud a chamau'n cael eu cymryd er budd pennaf y cyhoedd, ein staff a'n rhanddeiliaid, gan sicrhau bod risg ac effaith yn cael eu hystyried mewn modd priodol.
- **Dirprwyaeth ac Uwchgyfeirio** - caiff unrhyw newidiadau i'n fframweithiau dirprwyaeth ac uwchgyfeirio eu gwneud gan ddefnyddio'r egwyddorion hyn, eu cofnodi ar gyfer y dyfodol a'u hadolygu'n barhaus wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Bydd Byrddau a dulliau llywodraethu eraill yn parhau i gael eu defnyddio i oruchwylio'n briodol, gan gydnabod efallai y bydd angen cael trefniadau gwahanol yn eu lle ar gyfer swyddogion dynodedig, dirprwyon a phenderfyniadau.
- **Gwyro** - pan y bydd angen gwyro oddi wrth safonau, polisïau neu arferion presennol i wneud penderfyniadau cyflym ac effeithiol - caiff y penderfyniadau hyn eu nodi'n briodol. Mae'n bosibl iawn y bydd gwyro fel hyn yn digwydd mewn meysydd fel rheolau sefydlog (er enghraifft sut y mae'r Bwrdd yn gweithredu), Cynllun Dirprwyo'r Bwrdd, ymgynghoriadau, recriwtio, hyfforddiant a chaffael, archwilio ac ail-ddilysu, ond ni fydd yn cael ei gyfyngu i'r meysydd hyn yn unig.

- **Cymru'n Un** - byddwn yn gweithredu er budd pennaf Cymru gyfan gan sicrhau lle y bo'n bosibl, ein bod yn manteisio i'r eithaf ar adnoddau a phartneriaethau, ac yn sicrhau cysondeb lle y bo hynny'n briodol. Byddwn yn cefnogi ein sefydliad ein hunain a'r GIG ehangach i adfer cyn gynted â phosibl o'r argyfwng iechyd cyhoeddus cenedlaethol a ddaeth yn sgil COVID-19, gan ddychwelyd i fusnes fel arfer cyn gynted ag y bo hynny'n ddiogel.
- **Cyfathrebu a thryloywder** - byddwn wastad yn cyfathrebu'n agored ac yn dryloyw gan wneud hynny er budd y cyhoedd bob tro, a derbyn y bydd angen i'n trefniadau arferol gael eu haddasu o bosibl, er enghraifft cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd a gynhelir yn gyhoeddus.

Diben y nodyn cyfarwyddyd hwn yw cynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau yn ystod y cyfnod hwn, gan roi sylw yn benodol i rôl y Pwyllgor Archwilio a Diogelwch a'r Pwyllgor Archwilio.

Cefndir

Mae'n ofynnol i Fyrddau'r GIG sefydlu nifer o Bwyllgorau, gan gynnwys Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a Phwyllgor Archwilio yn unol â'r Rheolau Sefydlog Enghreifftiol ar gyfer sefydliadau'r GIG yng Nghymru.¹ Mewn ymateb i'r pandemig, mae sefydliadau'r GIG yng Nghymru wedi diwygio eu trefniadau, gan leihau gweithrediadau rhai pwyllgorau bwrdd a fforymau partneriaeth, ac adolygu cylch gwaith pwyllgorau a fforymau eraill. Ond bydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i gwrdd ym mhob sefydliad, gan weithredu lle y bo gofyn, drwy drefniadau diwygiedig.

Asesiad o Rolau Byrddau a Phwyllgorau wrth ymateb i'r Pandemig

Er y bydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Archwilio o bosibl yn gweithredu gydag agendâu â ffocws mwy pendant wrth i'r sefydliad ymateb i'r pandemig, bydd angen iddynt barhau i roi sylw i nifer o feysydd nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â COVID-19. Dylai sefydliadau ystyried eu trefniadau llywodraethu presennol gan gynnwys gweithrediadau'r Bwrdd a phwyllgorau priodol a pha mor aml maent yn cwrdd.

Gallai fod yn synhwyrol i'r bwrdd ystyried dull integredig o roi sicrwydd sy'n gofyn am lai o amser rheoli, yn enwedig gan y rheini sydd â chyfrifoldeb clinigol lle bydd effaith COVID-19 yn cael ei themlo fwyaf.

Wrth i'r sefydliad symud at y cam adfer ac ail-gychwyn gwasanaethau, bydd angen ystyried pa mor gyfredol yw archwiliadau ac adolygiadau blaenorol, oherwydd derbynnir ei bod yn anochel y bydd rhai gwasanaethau/gweithgareddau yn newid yn y tymor hir o ganlyniad i'r ffyrdd gwahanol o weithio sydd wedi cael eu sefydlu. Er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw, bydd angen sicrhau bod cofnod ar gael o

¹ Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Llywodraeth Cymru, Medi 2019, <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/rheolau-sefydlog-1>

weithgarwch y Pwyllgor cyn yr argyfwng i sicrhau bod hyn y cael y sylw haeddiannol a bod trywydd archwilio clir yn bodoli.

Dyma rai meysydd i'r Bwrdd eu hystyried er mwyn i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Archwilio eu cyflawni:

Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch

Y Gweithlu a Gwirfoddolwyr

- Diogelwch a defnydd o staff dros dro/staff sy'n gweithio mewn amgylchiadau anghyfarwydd (gan gynnwys ysbytai maes) gyda chymysgedd anghyfarwydd o gleifion a defnydd o wirfoddolwyr
- Lefelau absenoldeb salwch/yr angen i staff hunanynysu a'r effaith ar lefelau staffio mwy diogel
- Capasiti meysydd eraill heb gleifion e.e. patholeg mewn perthynas â llwythau gwaith COVID-19 a llwythau gwaith nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19
- Iechyd a lles staff (yn absenoldeb Pwyllgor y Gweithlu, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch neu'r Bwrdd yn penderfynu parhau i oruchwyllo'r maes hwn).

Rheoli Offer, Meddyginiaethau, Cyflenwadau a Chyfleusterau

- Bod Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) priodol ar gael, yn cael ei gaffael, ei ddosbarthu, bod staff yn cael hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio, a chanllawiau a chyfathrebu
- Bod offer a defnyddiau traul ar gael - caffael, dosbarthu, asesu risg a gofynion hyfforddi, monitro cyflenwadau a stociau
- Rheoli meddyginiaethau - mynediad at feddyginiaethau hanfodol, mynediad cymunedol etc.
- Glanhau a hyllendid - trefniadau glanhau ar gyfer pob ardal, yr effaith bosibl ar heintiau eraill a geir yn yr ysbyty, a yw'r staff yn gallu cael cawod a newid fel sy'n briodol ar ddiwedd eu shift etc.

Diogelwch, Ansawdd ac Effeithiolrwydd Clinigol

- Goruchwyllo a monitro gallu sefydliadau i ddarparu / comisiynu gwasanaethau hanfodol a chytuno ar gamau gweithredu lle mae risgiau sylweddol i ddarpariaeth.
- Rheoli digwyddiadau difrifol - i gynnwys unrhyw newidiadau i'r trefniadau ar gyfer adrodd a rheoli digwyddiadau, monitro ac olrhain themâu o ganlyniad i COVID-19
- Ymateb i rybuddion a hysbysiadau diogelwch cleifion a chmau gwella eraill sydd eu hangen, gan gynnwys unrhyw ofynion sy'n deillio o archwiliadau yn unol â chynghor gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a chyrrff rheoleiddio eraill.
- Adolygiadau marwolaeth - goruchwyllo adolygiadau marwolaeth ar gyfer y marwolaethau hynny sydd efallai'n peri pryder neu sydd wedi digwydd mewn amgylchiadau anarferol. Dylai pwyllgorau sicrhau bod camau diogelu yn cael

eu rhoi yn eu lle ar unwaith, a bod dysgu'n cael ei rannu ar draws y sefydliad yn y ffordd arferol

- Sbardunau ar gyfer adolygiadau o niwed clinigol i'r rheini ar restrau aros - sut y caiff y rhain eu nodi ac a fydd unrhyw newid i'r trefniadau cyn-COVID?
- Deall y sefyllfa o ran rhaglen archwilio clinigol sefydliad (Noder – mae'r Rhaglen Genedlaethol wedi cael ei hatal dros dro)
- Trefniadau ar gyfer cymeradwyo diwygiadau i bolisiâu, gweithdrefnau a phrotocolau - sut y cânt eu reoli yn ystod gwahanol gamau'r ymateb?
- Sut mae'r sefydliad yn cadw cyfrif o'r canllawiau a gyhoeddwyd? A oes trefniadau yn eu lle ar gyfer gwerthuso a sicrhau ymateb priodol?
- A yw'r Pwyllgor yn glir am beth yw'r disgwyliadau i staff ynghylch dilyn canllawiau a chynnal ffiniau ymarfer clinigol?
- Risg bosibl i gleifion os na ellir cynnal asesiad o anghenion arbennig gan arwain at gynnydd posibl mewn pryderon yn ymwneud ag Amddifadu o Ryddid e.e. os caiff ardaloedd clinigol eu cloi er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.
- Sicrhau bod gan wasanaethau sy'n cael eu darparu mewn cyfleusterau ymchwydd megis ysbytai maes weithdrefnau gweithio clir yn eu lle, a hynny yn unol â threfniadau llywodraethu clinigol/ansawdd y sefydliad

Profiad y Claf

- Adrodd ar Brofiadau a Phryderon Cleifion - trefniadau ar gyfer rheoli ac ymateb yn ystod y camau ymateb, adfer ac ail-gychwyn gwasanaethau.
- Ystyried materion a phryderon a allai gael eu codi gan y Cyngor Iechyd Cymuned.
- Yr effaith ar gleifion yn sgil eu gallu i gael mynediad at wasanaethau hanfodol megis gofal lliniarol diwedd oes, rheoli poen, gwneud penderfyniadau ar sail gwerth.
- Pryderon a mesurau lliniaru mewn perthynas â gallu i sicrhau bod anghenion o ran y Gymraeg, ieithoedd eraill ac o ganlyniad i nodweddion gwarchodedig yn cael eu diwallu.
- Peidio â cheisio dadebru cardio-anadlol (DNACPR) a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol.
- Yr effaith ar gleifion a'u teuluoedd yn sgil polisiâu ymweld, y gallu i sicrhau cyflenwadau o ddillad a phethau ymolchi sylfaenol, darparu ar gyfer anghenion hylendid a maeth, rhoi cysur ar ddiwedd oes, anghenion bugeiliol etc.

Capasiti

- Y gallu i ateb y galw yn sgil COVID a chleifion sydd angen gwasanaethau hanfodol
- Statws a'r defnydd o gapasiti ymchwyddedig
- Cynlluniau i'w defnyddio yn ystod y camau ymateb, adfer ac ail-gychwyn gwasanaethau.
- Statws gwasanaethau achub bywyd a gwella bywyd

- Rhannu perfformiad rhwng cleifion COVID a rhai nad ydynt yn gysylltiedig â COVID

Adroddiadau Blynyddol

- Cytuno ar y Datganiad Ansawdd Blynyddol i'w gymeradwyo gan y Bwrdd cyn 30 Medi 2020.
- Derbyn Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella
- Derbyn gwybodaeth ynghylch adroddiadau/rhaglenni blynyddol sydd wedi cael eu hatal dros dro (e.e. y Rhaglen Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol) a threfniadau ar gyfer derbyn adroddiadau eithriad os oes angen.

**Gwneud Penderfyniadau a Dirprwyo Pwerau/Rheoli Risgiau a Sicrwydd*

Gweler isod yn Adran y Pwyllgor Archwilio. Bydd angen i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ystyried materion sy'n dod o fewn eu Cylch Gorchwyl a'u pwerau i wneud penderfyniadau.

Y Pwyllgor Archwilio

Adroddiadau Blynyddol

Cyhoeddwyd amserlenni diwygiedig yn y llythyr gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 26 Mawrth 2020 (gweler yr adran Cyfeiriadau isod). Bydd hyn yn llywio gwaith y Pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd blynyddol.

- Adolygu ac argymell y cyfrifon blynyddol i'w mabwysiadu a'u cymeradwyo gan y Bwrdd
- Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i sicrhau ei fod yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa ar gyfer 2019/20 ac, hyd at y dyddiad cymeradwyo, cyn llofnod y Prif Weithredwr/Swyddog Atebol, sicrhau bod effaith yr angen i ymateb i COVID-19 yn glir.
- Adolygu'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac argymell ar gyfer cymeradwyaeth gan y Bwrdd
- Adolygu'r Adroddiad Blynyddol a datganiadau atebolrwydd yn unol â'r amserlen ddiwygiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac argymell ar gyfer cymeradwyaeth gan y Bwrdd

Nodwch: Er mai cyfrifoldeb pob sefydliad unigol yw cytuno ar y lefel o sicrwydd sy'n ofynnol a chynnwys adroddiadau, dylid rhoi ystyriaeth i'r effaith bosibl ar wyro adnoddau i baratoi adroddiadau na fydd yn ychwanegu llawer o werth at y camau ymateb, adfer ac ail-gychwyn gwasanaethau.

Archwilio Mewnol

Efallai y byddai'r Cadeirydd yn ei gweld yn fuddiol cynnal trafodaeth gyda Phennaeth Archwilio Mewnol ac Ysgrifennydd y Bwrdd i helpu i lywio gweithgarwch y Pwyllgor yn ystod y camau ymateb, adfer ac ail-gychwyn gwasanaethau. Bydd yn ofynnol i'r Pwyllgor wneud y canlynol:

- Derbyn barn y Pennaeth Archwilio Mewnol am yr Archwiliad Blynnyddol a'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynnyddol a fydd yn llywio'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol
- Asesu statws Cynllun Archwilio Mewnol Blynnyddol 2019/2020 a'r effaith bosibl ar y Cynllun 2020/21
- Adolygu a chytuno ar gynllun diwygiedig ar gyfer 2020/21 gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol. Bydd angen i hyn aros yn hyblyg, gan nad yw'n glir ar hyn o bryd pryd y bydd y rhaglen yn gallu dechrau a pha ddiwygiadau bydd angen eu gwneud i gefnogi'r gwaith adfer ac hefyd i adlewyrchu proffil risg diwygiedig y sefydliad.
- Cytuno ar y trefniadau ar gyfer olrhain camau archwilio mewnol yn ystod y cyfnod. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno canolbwyntio ar y canlynol:
 - Adroddiadau a dderbyniodd Radd Sicrwydd Cyfyngedig neu Ddim Sicrwydd
 - Camau gweithredu yr aseswyd eu bod yn flaenoriaeth uchel pan fo'r "dyddiad gweithredu erbyn" wedi pasio.
- Wrth i'r sefydliad symud i'r cam adfer ac ail-gychwyn ar wasanaethau, ystyried a yw adroddiadau blaenorol a chamau gweithredu canlyniadol yn parhau i fod yn berthnasol
- Asesu a fyddai unrhyw benderfyniadau/ffyrdd o weithio a sefydlwyd yn ystod y cam ymateb wedi elwa o gael Adolygiad Archwilio Mewnol i roi sicrwydd i'r sefydliad.

Archwilio Cymru

Ar gyfer Archwiliad Mewnol awgrymir bod y Cadeirydd yn cynnal trafodaeth gydag Archwilio Cymru ac Ysgrifennydd y Bwrdd i lywio gweithgarwch y Pwyllgor yn ystod y cam ymateb, adfer ac ail-gychwyn ar wasanaethau. Cyhoeddwyd Adroddiadau Blynnyddol ac Asesiadau Strwythuredig ar gyfer 2019 cyn i bandemig COVID-19 gael ei ddatgan. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi dweud ar wefan Archwilio Cymru² bod dyletswyddau statudol yn parhau i gael eu cyflawni, ond ei fod am sicrhau nad yw gwaith archwilio yn cael effaith niweidiol ar gyrff archwilio a'u staff ar adeg pan fo gwasanaethau cyhoeddus dan bwysau enfawr, ac yn canolbwyntio ar faterion pwysicach.

Caiff trefniadau eu rhoi yn eu lle i sicrhau bod dyletswyddau statudol diwedd blwyddyn yn cael eu cyflawni yn unol â'r amserlen gyfrifyddu ddiwygiedig.

*Rheoli Risg a Sicrwydd**

Er na ddylai'r Pwyllgor gymryd rhan uniongyrchol yn y broses o reoli risg, bydd system rheoli risg y sefydliad yn sylfaen i'r system sicrwydd, ac mae angen i'r Pwyllgor adolygu'r prosesau rheoli risg wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r system sicrwydd hon³.

² <https://www.audit.wales/news/covid-19>

³ Llawlyfr y Pwyllgor Archwilio, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2012, (Saesneg yn unig) <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/NHS%20Wales%20Audit%20Committee%20Handbook%20%28June%202012%29.pdf>

- Mae'n debygol y bydd parodrwydd sefydliadau i dderbyn risg yn uwch nag yn y cyfnod cyn yr argyfwng, er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn gallu ymateb yn effeithiol, ac yn gyflym. Gallai hyn fod yn amlwg ym mha mor gyflym y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud er enghraifft.
- Dylai'r Pwyllgor geisio sicrwydd bod risgiau wedi cael eu hasesu ac yn seiliedig ar dystiolaeth dryloyw, gan gynnwys effaith anghymesur ar feysydd eraill.
- Pa lefel o sicrwydd sydd ar gael o ffynonellau allanol ar gyfer y risgiau a beth yw lefel yr hyder y gellid ei ennill o hyn, gan ei bod yn debygol bod eu rhaglenni hefyd wedi cael eu heffeithio? A oes hyder yn y ffynonellau sicrwydd mewnol yn ystod y cyfnod hwn er mwyn helpu i liniaru'r effaith ar ffynonellau sicrwydd allanol? Wrth i'r sefydliad symud i'r cam adfer ac ail-gychwyn ar wasanaethau, bydd angen ystyried ymhellach y parodrwydd i dderbyn risg a goddefgarwch y sefydliad. Gan dderbyn y byddai'n annhebygol o fod yn briodol mynd yn ôl at y sefyllfa fel ag yr oedd cyn y pandemig, mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw newidiadau wedi cael eu hystyried a'u cytuno gan y Bwrdd, a bod trefniadau yn eu lle i'w rheoli'n briodol.

*Gwneud Penderfyniadau a Dirprwyo Pwerau**

Mae'r Egwyddorion Llywodraethu yn cydnabod y gallai fod nifer o newidiadau i'r fframweithiau dirprwyaeth ac uwchgyfeirio, ynghyd â gwyro oddi wrth safonau, polisïau neu arferion presennol i wneud penderfyniadau yn gyflym ond yn effeithiol. Maent hefyd yn cydnabod yr angen i gofnodi gwyro o'r fath ar gyfer y dyfodol, ac i sicrhau ei fod yn cael ei adolygu'n barhaus wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

- Mae gan y Pwyllgor rôl i ystyried unrhyw amrywiad mewn Rheolau Sefydlog, gan eu cymeradwyo pan ystyrir bod hynny'n briodol a pharatoi adroddiad ffurfiol i'r Bwrdd.
- Asesu pa mor gadarn yw'r trefniadau ar gyfer cofnodi penderfyniadau a threfniadau ar gyfer sicrhau parhad busnes os na all unigolion gyflawni eu cyfrifoldebau.
- Derbyn gwybodaeth am unrhyw amrywiad yng Nghynlluniau Dirprwyo / Polisïau a Gweithdrefnau Sefydliadol / Trefniadau Gweithredu Safonol

* Nodyn - Bydd gan y Pwyllgor Archwilio ynghyd â'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch rôl i gynghori'r Bwrdd am ba mor briodol yw'r trefniadau rheoli risg, gwneud penderfyniadau a dirprwyo pwerau.

Rheolaeth Ariannol

Mae Cymdeithas Rheoli Cyllid Gofal Iechyd (HFMA) wedi cyhoeddi Ystyriaethau Llywodraethu Ariannol COVID-19⁴ sy'n rhoi cyngor ar feysydd y bydd angen ystyriaeth megis adolygu'r cynllun dirprwyo, trefniadau llofnodwr awdurdodedig, codio gwariant etc. Bydd gan y Pwyllgor Archwilio rôl i wneud y canlynol:

⁴ Ystyriaethau Llywodraethu Ariannol COVID-19, Cymdeithas Rheoli Cyllid Gofal Iechyd (HFMA) (Saesneg yn unig), <https://www.hfma.org.uk/docs/default-source/publications/covid19-financial-governance-implications.pdf?sfvrsn=0>

- Derbyn gwybodaeth am y newidiadau i weithdrefnau rheoli a dirprwyaethau sydd wedi bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn gallu ymateb
- Derbyn gwybodaeth mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer cofnodi unrhyw achosion o wro
- Derbyn gwybodaeth am y gwro hwn - gallai hyn fod yn rhestr o gcontractau yr ymrwymwyd iddynt nad ydynt wedi bod yn destun rheolaethau caffael llawn
- Adolygu colledion a thaliadau arbennig
- Sicrwydd bod cyngor cyfreithiol priodol wedi cael ei geisio cyn ymrwymo i gytundebau

Gwrth-dwyll

Yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol yw'r prif gyswllt a bydd yn rhoi cyngor mewn perthynas ag adroddiadau a ddylai gael eu derbyn gan y Pwyllgorau Archwilio yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r bygythiad o dwyll yn ystod sefyllfaoedd o argyfwng yn uwch nag ar adegau eraill, a dylai sefydliadau roi rheolaethau priodol ar waith i liniau'r bygythiad hwnnw lle y bo'n bosibl.

Mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi gwybodaeth am y mesurau diogelwch a ddylid gael eu rhoi ar waith⁵ ac mae rhybuddion hefyd yn cael eu cyhoeddi yng Nghymru.

Dylai'r Pwyllgor Archwilio ystyried y trefniadau ar gyfer cynnal mesurau sicrwydd ar ôl digwyddiad er mwyn chwilio am achosion o dwyll a sicrhau mynediad at adnoddau archwilio i dwyll. Dylid gwneud hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, a dylai'r Pwyllgor dderbyn y canfyddiadau hyn.

Argymhelliad

Dylai sefydliadau'r GIG ystyried yr wybodaeth a'r canllawiau a ddarperir yn y ddogfen hon i lywio'r trefniadau ar gyfer eu Pwyllgorau Bwrdd yn ystod y cyfnod ymateb i COVID-19. Bydd hefyd angen iddynt ystyried pa mor berthnasol ydynt wrth symud i'r cam adfer/ail-gychwyn ar wasanaethau.

Caiff canllawiau pellach eu cyhoeddi os bydd angen.

Cyfeiriadau

Ystyriaethau Llywodraethu Ariannol COVID-19, Cymdeithas Rheoli Cyllid Gofal Iechyd (HFMA) (Saesneg yn unig), <https://www.hfma.org.uk/docs/default-source/publications/covid19-financial-governance-implications.pdf?sfvrsn=0>

⁵ Rheoli twyll wrth reoli argyfwng: ymateb Llywodraeth y DU i COVID-19, Swyddogaeth Gwrth-dwyll Llywodraeth y DU, <https://www.gov.uk/government/publications/fraud-control-in-emergency-management-covid-19-uk-government-guide>

Rheoli twyll wrth reoli argyfwng: ymateb Llywodraeth y DU i COVID-19, Swyddogaeth Gwrth-dwyll Llywodraeth y DU (Saesneg yn unig), <https://www.gov.uk/government/publications/fraud-control-in-emergency-management-covid-19-uk-government-guide>

Cryfhau ymateb y system iechyd i COVID-19, Argymhellion ar gyfer briff Polisi Rhanbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd, 1 Ebrill 2020 (Saesneg yn unig), http://www.euro.who.int/data/assets/pdf_file/0003/436350/strengthening-health-system-response-COVID-19.pdf

COVID-19: Canllawiau gweithredu ar gyfer cynnal gwasanaethau iechyd hanfodol yn ystod pandemig, Sefydliad Iechyd y Byd, 25 Mawrth 2020 (Nid yw ar gael yn Gymraeg) <https://www.who.int/publications-detail/covid-19-operational-guidance-for-maintaining-essential-health-services-during-an-outbreak>

Llawlyfr y Pwyllgor Archwilio, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2012, (Saesneg yn unig) <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/NHS%20Wales%20Audit%20Committee%20Handbook%20%28June%202012%29.pdf>

Pwyllgorau Ansawdd COVID-19, 20 Ebrill 2020, Good Governance Institute, (Saesneg yn unig) <https://www.good-governance.org.uk/blog-post/quality-committees-and-covid-19/>